Rhif: WG41954

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru iaith arwyddion Prydain (BSL)

Dyddiad cyhoeddi: 1 Chwefror 2021
Camau i'w cymryd: 29 Mawrth 2021

© Hawlfraint y Goron

# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru iaith arwyddion Prydain (BSL)

## Trosolwg

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- fframwaith ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- arweiniad ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- camau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu
- cwricwlwm i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion ac ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'u datblygu ar gyfer BSL.

Datblygwyd y canllawiau gan ymarferwyr drwy broses o gyd-adeiladu gyda chymorth arbenigwyr, a dylai ysgolion a lleoliadau eu defnyddio fel dull o gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae'r cam adborth hwn yn rhan o'r broses datblygu ar y cyd. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu a helpu i gefnogi datblygiad y canllawiau.

Bydd y cam adborth yn dod i ben ar 29 Mawrth, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol a chan weithgorau ymarferwyr, gyda chymorth arbenigwyr yn yr maes. Yna caiff y canllawiau drafft eu mireinio mewn ymateb i adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021.

Noder: Bydd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n mynd drwy broses graffu'r Senedd ar hyn o bryd. Dylai ymatebwyr gofio y gallai unrhyw welliannau a wneir i'r Bil hefyd effeithio ar ganllawiau Cwricwlwm i Gymru.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **29 Mawrth 2021** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/

Bydd fersiwn BSL o'r canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer BSL ar gael ar sianel YouTube Addysg Cymru.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

@LIC_Addysg Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru iaith arwyddion Prydain (BSL)

Dyma'r canllawiau drafft yr ydym yn gwahodd adborth arnynt.

## Cyflwyniad

Mae’r canllawiau Cwricwlwm i Gymru hyn ar gyfer ysgolion, lleoliadau ac ymarferwyr eraill sy’n ymwneud â chynllunio cwricwlwm sy’n cynnwys BSL. Mae’n cynnwys BSL fel iaith gyntaf neu ail iaith ar gyfer dysgwyr byddar neu drwm eu clyw, a dysgwyr eraill sy’n dysgu BSL fel trydedd iaith neu iaith ddilynol. Mae’n adeiladu ar ganllawiau Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Maes) ac yn ffurfio rhan o’r Maes hwn.

### Y pedwar diben

Nod canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol a lleoliad i ddatblygu cwricwlwm, gan alluogi dysgwyr i wireddu’r pedwar diben – y man cychwyn a’r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru – er mwyn iddyn ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Gall dysgu BSL gyfrannu at wireddu pob un o’r pedwar diben.

**Dysgwyr uchelgeisiol a galluog**

Drwy ddysgu BSL, gall dysgwyr sy'n clywed a dysgwyr byddar o bob oedran feithrin eu gallu a'u huchelgais i gyfathrebu drwy ddefnyddio iaith arwyddion o fewn y Gymuned Fyddar a'r gymuned sy'n clywed. Drwy ddysgu BSL, gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddyfnach o gyfathrebu dynol yn fwy cyffredinol a chryfhau'r hyn y maent yn ei wybod am y ffordd y mae ieithoedd yn gweithio, gan roi sylfaen gadarn i ddysgu ieithoedd eraill. Drwy ddysgu BSL gall dysgwyr ddod yn ymwybodol o natur amlgyfrwng cyfathrebu dynol ynghyd â rôl ystumiau.

Drwy astudio unrhyw system iaith, gall dysgwyr feithrin eu dealltwriaeth o gyfathrebu fel rhywbeth sy'n ganolog i'r cyflwr dynol a gall gweithio allan sut y caiff BSL ei rhoi at ei gilydd gefnogi metawybyddiaeth. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a feithrinir drwy ddysgu BSL yn werthfawr ac yn berthnasol i'w defnyddio ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith, boed hynny yn y presennol neu gydol oes.

**Cyfranwyr mentrus a chreadigol**

Gall sgiliau BSL effeithiol helpu dysgwyr i wneud synnwyr o gysyniadau ym mhob rhan o'r cwricwlwm, er enghraifft drwy eu galluogi i fynegi eu rhesymeg wrth ddatrys problemau a dadansoddi gwybodaeth. Mae sgiliau amlieithog effeithiol yn dyfnhau'r gallu hwn am eu bod yn galluogi dysgwyr i ymateb mewn llawer mwy o gyd-destunau.

Mae cyfathrebu gweledol yn annog dysgwyr i feddwl yn greadigol ac mae'n rhaid iddynt fod yn barod i arbrofi, mentro, ymateb i heriau a chymhwyso strategaethau i ddatrys problemau cyfathrebu. Gall y sgiliau hyn fagu hyder dysgwyr a’u galluogi i achub ar gyfleoedd newydd ac addasu i rolau gwahanol.

**Dinasyddion egwyddorol a gwybodus**
Wrth i allu dysgwyr i ddeall a defnyddio BSL ddatblygu, gallant hefyd feithrin nifer o sgiliau megis hyblygrwydd gwybyddol, ac ystwythder rhyngbersonol a diwylliannol. Gall dysgu BSL annog dysgwyr i gamu y tu hwnt i ffiniau diwylliannol cyfarwydd a datblygu ffyrdd newydd o fynegi a thrafod ystyr, gan eu galluogi i gyfrannu at ddatblygu cymdeithas fyd-eang sy'n gynhwysol i bobl fyddar a phobl sy'n clywed. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, fynd i'r adael â materion ynghylch hawliau pobl anabl, ieithoedd lleiafrifol, cydnabod BSL a chyfathrebu drwy dechnoleg.

Dylai dysgu ac addysgu ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr feithrin eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliannau a hunaniaethau'r Gymuned Fyddar a'r gymuned sy'n clywed lle mae BSL yn iaith gyntaf neu'n cael ei defnyddio'n arferol ar gyfer cyfathrebu beunyddiol i gefnogi ieithoedd eraill. Gall hyn gynnwys ymwybyddiaeth o amrywiadau rhanbarthol yn BSL.

**Unigolion iach a hyderus**
Mae cysylltiad agos rhwng cyfathrebu a lles. Mae sgiliau iaith effeithiol yn ein galluogi i reoli ein bywydau o ddydd i ddydd yn annibynnol. Gall sgiliau BSL a bod yn rhan o'r Gymuned Fyddar gefnogi hunaniaeth dysgwyr byddar. Gall sgiliau BSL fod yn gyfle i ddysgwyr fynegi eu hunain yn effeithiol, bod yn agored i safbwyntiau pobl eraill a meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Gall cyfathrebu gweledol helpu i fagu mwy o hyder a chwalu rhwystrau cyfathrebu.

## Sgiliau trawsgwricwlaidd a'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben

Rhaid i gwricwlwm ysgol ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canlynol yn nodi rhai agweddau allweddol y dylai ysgolion a lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu BSL.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

**Sgiliau Digidol**
Gall dysgu o fewn BSL a sgiliau digidol gefnogi ei gilydd. Gall dysgwyr ddysgu'r sgiliau i gyfathrebu o bell gan ddefnyddio BSL, dod o hyd i adnoddau BSL ar-lein a'u defnyddio, a chreu a rhannu eu deunyddiau BSL digidol eu hunain. Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddefnyddio'r dechnoleg sydd fwyaf addas i'w hanghenion cyfathrebu.

**Llythrennedd**
Iaith weledol yw BSL ac nid oes ffurf ysgrifenedig arni: defnyddir iaith arwyddo wedi'i ffilmio yn hytrach na thestun.

Pan mae plant byddar yn dysgu orgraff Cymraeg a Saesneg, neu unrhyw iaith lafar arall, maent yn gwneud hynny heb y cliwiau clywedol y mae plant sy'n clywed yn eu defnyddio. Mae gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) fwy o wybodaeth am addysgu plant byddar sut i ddarllen.

**Rhifedd**
Gall dysgu rhifolion BSL ac arwyddion ar gyfer meintiau, amser ac arian helpu i ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr. Mae systemau cyfrif BSL yn un llaw, a gallant roi cipolwg ar wahanol fonau rhifau.

### Sgiliau cyfannol

**Creadigrwydd ac arloesi**
Gall dysgu roi cyfleoedd i arbrofi â BSL a'i defnyddio'n greadigol er mwyn rhoi hyder i ddysgwyr fentro, mynegi barn a chynhyrchu syniadau mewn cyd-destun lluosieithog a all arwain at ddeilliannau arloesol. Gallant ddatblygu eu creadigrwydd drwy gyfleoedd i greu a pherfformio llenyddiaeth BSL. Gall mynegiant creadigol wella dealltwriaeth dysgwyr o'r cysyniadau allweddol yn ogystal â dulliau mynegiant.

**Meddwl yn feirniadol a datrys problemau**
Gall sgiliau derbyn iaith a sgiliau cynhyrchu BSL fod yn sail i feithrin y gallu i feddwl yn feirniadol a datrys problemau. Gellir mireinio'r sgiliau hyn drwy gyfathrebu ag eraill er mwyn deall sefyllfaoedd, mynegi syniadau a datblygu ymatebion i broblemau.

**Effeithiolrwydd personol**
Gall dysgwyr feithrin eu heffeithiolrwydd personol a'u hunanymwybyddiaeth wrth ddysgu a defnyddio BSL. Gall hyn yn ei dro gefnogi dysgu ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Gall cynnig amgylchedd sy'n llawn iaith ac yn lluosieithog helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu cryfderau eu hunain o ran defnydd iaith, ac i nodi eu meysydd datblygu eu hunain er mwyn gwella eu sgiliau iaith a chyfathrebu yn barhaus.

**Cynllunio a threfnu**
Dylai dysgu BSL alluogi dysgwyr i feithrin y sgiliau i ddewis a defnyddio ffynonellau a gwybodaeth briodol. Bydd hyn yn fodd iddynt drefnu syniadau, gwneud cynlluniau effeithiol a datblygu gwaith creadigol. O gael y cyfle i ddefnyddio sgiliau iaith i gyflwyno cynlluniau a rhoi atebion ar waith gydag eglurder, gall dysgwyr fyfyrio ar eu gwaith a chynllunio a gwneud gwelliannau pellach.

## Cynnydd yn BSL

Mae plant byddar yn aml yn cael eu cyflwyno’n hwyr i iaith arwyddion. Nid yw hyn yn peri syndod am fod y mwyafrif yn cael eu geni i rieni sy'n clywed. Mae’n annhebygol bod y rhieni hyn, ar y dechrau o leiaf, yn gallu defnyddio iaith arwyddion. Gall hyn gael effeithiau hirdymor ar ddatblygiad iaith a datblygiad gwybyddol plentyn.

Ni ddarperir technolegau clyw megis mewnblaniad yn y cochlea tan ar ôl un mlwydd oed ac mae'r broses o ddod i arfer gyda’r ddyfais ar ôl actifadu’r mewnblaniad yn cymryd cyfnod estynedig o amser. Mae BSL yn galluogi plant i gael eu hamgylchynu gan iaith ddealladwy bob amser, p’un ai ydyn nhw am fynd yn eu blaen i feithrin sgiliau da mewn iaith lafar yn ddiweddarach ai peidio.

Mae BSL yn iaith weledol gyda gramadeg a lecsicon ei hun. Mae astudiaethau ymchwil wedi dangos bod caffael iaith arwyddion yn dilyn patrwm tebyg i gaffael iaith lafar. Mae hyn hefyd yn wir am ddatblygiad agweddau penodol ar iaith fel ffonoleg, geirfa a naratifau (‘dweud stori’).

**Ffonoleg**
Yn achos ieithoedd llafar, mae ffonoleg yn cyfeirio at y ffordd y mae seiniau iaith yn cael eu rhoi at ei gilydd i ffurfio geiriau. Yn achos ieithoedd arwyddion, mae ffonoleg yn cyfeirio at y ffordd mae elfennau arwyddion yn cael eu rhoi at ei gilydd: y ffordd mae ffurf y llaw, safle, symudiad, gogwydd a nodweddion heblaw'r dwylo yn cyfuno i ffurfio arwyddion. Fel yn achos y sawl sy’n dysgu ieithoedd llafar, mae datblygiad ffonolegol plant byddar sy'n dysgu

sut i arwyddo yn cymryd amser, ac mae plant yn debygol o wneud camgymeriadau ar gamau cynnar datblygiad iaith. Mae plant yn aml yn defnyddio siapiau llaw sy'n haws eu ffurfio yn hytrach na rhai anodd. Mae’n bosib hefyd y byddant yn symleiddio symudiadau.

**Geirfa**
Mae ymchwil wedi dangos bod tebygrwydd rhwng caffael geirfa mewn ieithoedd arwyddion a llafar. Fel arfer, bydd plant sy'n dysgu iaith arwyddion yn ffurfio eu harwydd cyntaf pan fyddant tua 11 mis oed. Erbyn 18 mis oed, byddant yn adnabod tua 70-80 arwydd. Erbyn tair oed, byddant yn gallu deall a ffurfio tua 500 arwydd. Fel yn achos ieithoedd llafar, mae ffactorau allanol yn dylanwadu ar y broses o gaffael geirfa, megis y graddau y bydd plentyn yn ymwneud ag iaith arwyddion ac ansawdd yr iaith honno. Hefyd, mae rhuglder BSL y prif ofalwr yn effeithio ar y llwybr datblygu a maint geirfa BSL y dysgwr.

Er bod caffael geirfa yn dilyn amserlen debyg mewn iaith arwyddion ac iaith lafar, mae'n bwysig cofio y bydd plant a phobl ifanc sy'n clywed yn aml yn dysgu geiriau newydd drwy ddysgu anfwriadol. Byddant yn digwydd clywed sgyrsiau ac yn clywed geiriau ar y teledu neu drwy gyfryngau eraill. Byddant hefyd yn dysgu geiriau newydd wrth ddarllen. Yn achos iaith arwyddion, nid oes unrhyw ffurfiau ysgrifenedig. Bydd angen i blant a phobl ifanc sy'n dysgu iaith arwyddion edrych ar bobl er mwyn dysgu arwyddion newydd. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig iawn bod plant sy'n dysgu iaith arwyddion yn cael cyfle i ymwneud â modelau ieithoedd arwyddion da yn rheolaidd. Mae hefyd yn golygu y dylai fod modd iddynt gael mynediad i amgylchiadau arwyddo lle y gallant weld sgyrsiau eraill. Ceir rhaglenni teledu a gyflwynir yn BSL neu sydd â dehonglwr ar y sgrin. Gall ysgolion a lleoliadau helpu hwyluso mynediad dysgwyr at y rhain. Mae maint geirfa (boed hynny mewn iaith arwyddion neu iaith lafar) yn bwysig o ran rhagfynegi datblygiad llythrennedd yn y dyfodol.

**Naratifau**
Mae ymchwil BSL yn awgrymu bod datblygiad y gallu i ddweud stori yn debyg mewn ieithoedd arwyddion ac ieithoedd llafar, gyda phlant byddar ifanc yn dechrau cynhyrchu naratifau pan fyddant tua dwy oed. Mae'r gallu i roi naratif geiriol at ei gilydd (boed hynny drwy arwyddo neu ar lafar) yn rhagfynegydd pwysig o ran sgiliau llythrennedd da, felly dylai naratifau gael eu cyflwyno i arwyddwyr ifanc yn gynnar, yn enwedig gan fodelau arwyddo da.

Mae gan NDCS adnoddau a allai gefnogi dilyniant dysgwyr byddar sy’n caffael iaith yn hwyr tra bod gan ganolfan ymchwil Gwybyddiaeth ac Iaith Byddardod UCL (DCAL) fwy o wybodaeth am ymchwil BSL.

**Cynnydd yn BSL a’r Cwricwlwm i Gymru**
Iaith weledol yw BSL, felly lle mae datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cyfeirio at wrando a darllen, siarad ac ysgrifennu, dylid ystyried sgiliau derbyn a mynegi cyfatebol ar gyfer BSL.

Mae’r disgrifiadau dysgu sy’n dangos y ffordd mae dysgwyr yn gwneud cynnydd o ran y datganiad o’r hyn sy’n bwysig *Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd* yn gyffredin i bob dysgwr ym mhob ysgol yng Nghymru. Yng nghyd-destun BSL, mae’r gair ‘hunaniaeth’ yn y disgrifiadau yn cynnwys hunaniaeth fel person byddar a defnyddiwr iaith arwyddion yng Nghymru a'r byd ehangach. Mae’n cynnwys Diwylliant Byddar ochr yn ochr â diwylliannau eraill. Yn yr un ffordd mae’r gair ‘perthyn’ yn cynnwys perthyn yn y Gymuned Fyddar leol a’r Gymuned Fyddar ehangach yn ogystal â chymunedau eraill y gall y dysgwr berthyn iddynt. Mae'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig yn arbennig o berthnasol hefyd i ddysgwyr byddar yn y modd y gall eu cynnydd cydamserol yn BSL a Chymraeg/Saesneg olygu eu bod yn fwy

abl na'u cyfoedion sy'n clywed i symud rhwng ieithoedd a diwylliannau. Drwy'r disgrifiadau dysgu ar gyfer y datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig, cydnabyddir bod eu gallu i ddeall nad oes cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng geiriau ac arwyddion, ac i adnabod dehongliadau gwahanol a'u hesbonio i eraill, yn sgìl werthfawr.

Ar gyfer y datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn, mae disgrifiadau dysgu yn cael eu datblygu i ddangos cynnydd yn BSL o gam cynnydd 1 i gam cynnydd 5 ar gyfer dysgwyr byddar y mae BSL yn iaith gyntaf neu'n brif iaith iddynt, er enghraifft:

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith.<br><br>Rwy'n dechrau deall ac adnabod enghreifftiau o ffonoleg BSL (ffurf llaw, lleoliad, symudiad, gogwydd a nodweddion nad ydynt yn rhai llaw). | Rwy'n gallu deall a nodi prif nodweddion gramadegol BSL. | Rwy'n gallu ymwneud â chyfathrebu a llenyddiaeth BSL er mwyn deall sut mae gramadeg yn effeithio ar ystyr. | Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth am ramadeg i gefnogi fy nealltwriaeth o gyfathrebu a llenyddiaeth BSL. | Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth am adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfnu iaith er mwyn cefnogi fy nealltwriaeth o gyfathrebu a llenyddiaeth iaith arwyddo. |

Mae disgrifiadau dysgu yn cael eu datblygu ar gyfer dysgwyr y mae BSL yn drydedd iaith neu'n iaith ddilynol iddynt sy'n dangos cynnydd o gam cynnydd 3 i gam cynnydd 5. Mae hyn yn unol â disgrifiadau dysgu ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft:

| Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|
| Rwy'n gallu deall arwyddion sy'n digwydd amlaf yn BSL. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod o elfennau cyfathrebu a llenyddiaeth BSL. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i gydnabod a rhagfynegi'r ystyr gyffredinol ar draws ystod eang o elfennau cyfathrebu a llenyddiaeth BSL ac rwy'n gallu deall syniadau sydd ymhlyg. |

Bydd disgrifiadau dysgu iaith arwyddion Prydain ar gael ochr yn ochr â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill ym Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o hydref 2021.

## Asesu

Mae'n bwysig iawn olrhain ac asesu datblygiad iaith dysgwyr byddar yn rheolaidd. Mae amrywiaeth o adnoddau asesu unffurf wedi'u datblygu at y diben hwn:

- Prawf Sgiliau Derbyn BSL (BSL-SRT) (yn bennaf, Asesu morffoleg BSL ar gyfer plant 3-12 oed)
- Prawf Sgiliau Cynhyrchu BSL (Prawf Naratif BSL - PT) (Asesu sgiliau naratif BSL ar gyfer plant 4-11 oed)
- Prawf lleferydd-darllen plant (TOCS) (Asesu sgiliau lleferydd-darllen ar gyfer plant byddar 4–15 oed)
- Prawf Geirfa BSL (VT) (asesiad cyfrifiadurol o sgiliau deall a chynhyrchu iaith arwyddion ar gyfer plant 4-15 oed).

Mae'r profion hyn ar gael trwy wefan DCAL. Mae gan NDCS hefyd adnoddau i gefnogi ymarferwyr gydag asesu dysgwyr byddar.

Nid oes asesiadau statudol ar gyfer BSL yng Nghymru.

## Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer dylunio cwricwlwm

Dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr fethodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd ar gyfer ystyried elfennau trawsbynciol, lle mae'n briodol.

**Cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol**
Mae BSL yn iaith leiafrifol frodorol ac yn iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw yng Nghymru. Cafodd BSL ei chydnabod yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru fel iaith annibynnol ym mis Ionawr 2014.

Gall dysgu BSL ysbrydoli a galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- dod yn amlieithog, gan feddu ar y gallu i ddefnyddio BSL, Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol arall, gallai hyn fod yn iaith arwyddion ryngwladol megis iaith arwyddion America (ASL), a datblygu agwedd agored tuag at holl ieithoedd a diwylliannau'r byd ynghyd â chwilfrydedd yn eu cylch
- mwynhau dysgu ieithoedd a datblygu canfyddiad cadarnhaol ohonyn nhw eu hunain fel defnyddwyr yr ieithoedd hynny
- defnyddio iaith/ieithoedd a diwylliant/diwylliannau eu cartrefi a'u cymunedau, gan gynnwys Diwylliant Byddar, fel sylfaen i ddysgu iaith ymhellach
- datblygu sylfaen gadarn yn BSL, Cymraeg a Saesneg i adeiladu arni wrth ddysgu ieithoedd eraill ac wrth ehangu eu dealltwriaeth o gyd-destunau cenedlaethol a byd-eang
- myfyrio ar eu treftadaeth ieithyddol bersonol a lleol
- dod yn wybodus am amrywiaeth y dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol, yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol
- datblygu eu hymdeimlad o hunaniaeth ieithyddol yn eu hardal leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach
- ymdrochi mewn diwylliannau ac ieithoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol drwy ymweliadau, gan ymgysylltu â phobl yn lleol ac yn fyd-eang a chysylltu'n ddigidol
- meithrin dealltwriaeth o ddiwylliant a hunaniaeth y rhai o'u hamgylch, er mwyn datblygu cyd-barch a chydlyniant cymdeithasol

- dod i werthfawrogi llenyddiaeth BSL.

**Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth**
Mae rhai agweddau ar hawliau ac amrywiaeth i'w hystyried wrth gynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys BSL wedi'u cynnwys isod.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cyfeirio'n benodol at ieithoedd arwyddion saith gwaith mewn pum erthygl. Mae erthygl 24 yn ymwneud ag addysg.

Mae erthyglau'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar gael yn BSL.

BSL yw iaith gyntaf llawer o blant a phobl ifanc byddar a thrwm eu clyw yng Nghymru ac mae'n gyfrwng iddynt gyfathrebu'n effeithiol a chymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n eu effeithio. Mae CCUHP yn datgan bod gan blant yr hawl i ddefnyddio eu hiaith ac arfer eu diwylliant eu hunain hyd yn oed os nad yw'r rhain yn gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl yn y wlad lle maent yn byw.

Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn yn ddirwystr ar faterion sy'n effeithio arnynt. Dylai oedolion wrando ar blant a'u cymryd o ddifri. Mae gan blant yr hawl hefyd i rannu ag eraill yn ddirwystr yr hyn y maent yn ei ddysgu, yn ei feddwl ac yn ei deimlo. Gall BSL hwyluso hyn.

Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth o'r rhyngrwyd, radio, teledu, papurau newydd, llyfrau a ffynonellau eraill. Gall dysgu ac addysgu helpu dysgwyr byddar i gael gafael ar wybodaeth briodol yn BSL yn ogystal ag mewn ieithoedd eraill y maent yn eu deall.

Dylai addysg plant eu helpu i feithrin eu personoliaethau, eu doniau a'u galluoedd yn llawn. Dylai eu haddysgu i ddeall eu hawliau eu hunain, a pharchu hawliau, diwylliannau a gwahaniaethau pobl eraill. Gellir defnyddio BSL fel cyfrwng i gyflawni hyn.

Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys, ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chreadigol. Mae cael mwy o ddysgwyr ac ymarferwyr sy'n gallu defnyddio BSL yn gallu cefnogi cynwysoldeb.

**Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith**
Wrth ddylunio cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau gynnwys cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau sy'n eu galluogi i wneud y canlynol:

- meithrin gwybodaeth am y cyfleoedd gyrfa ychwanegol sydd ar gael drwy BSL
- deall y gall bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog agor drysau ym myd gwaith
- meithrin sgiliau cyfathrebu effeithiol yn eu holl ieithoedd a magu hyder i ryngweithio ag eraill a meithrin cydberthnasau ym mhob gweithle
- datblygu iaith sy'n gysylltiedig â gwaith wrth ddysgu BSL
- ystyried sut y gall eu sgiliau iaith fod yn fuddiol iddynt wrth baratoi ar gyfer gweithio'n ystwyth ac yn hyblyg yng Nghymru a thu hwnt
- cael modelau rôl gyda swyddi diddorol ac amrywiol.

## Dylunio cwricwlwm

Wrth drefnu, cynllunio a gweithredu cwricwlwm, dylid ystyried natur y ddarpariaeth, adnoddau, cynnydd dysgwyr a'r ystod o brofiadau ieithyddol a diwylliannol a gynigir o fewn BSL.

Gall dysgwyr byddar a dysgwyr sy’n clywed elwa o amgylchedd sy'n llawn iaith lle mae BSL yr un mor amlwg â Chymraeg a Saesneg a lle y defnyddir BSL yn amgylchedd yr ysgol gyfan a thrwy gydol y diwrnod ysgol.

Darperir cwestiynau isod i ysgolion a lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio a datblygu eu cwricwlwm a’u dysgu ac addysgu.

**Ystyriaethau ar gyfer darpariaeth**
Beth yw tirwedd ieithyddol bresennol eich ysgol? Faint o ddefnyddwyr BSL a/neu ddysgwyr byddar sydd yn yr ysgol? A oes gennych gysylltiadau â'r Gymuned Fyddar? Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio’r dirwedd ieithyddol hon i helpu eich dysgwyr i wneud cynnydd ym mhob un o'u hieithoedd?

Sut y byddwch yn sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i wneud cynnydd yn BSL o'u mannau dechrau gwahanol?

Sut y byddwch yn darparu ar gyfer datblygu ffonoleg, geirfa a naratifau mewn ffordd systematig?

Sut y bydd cynnydd dysgwyr yn BSL yn cael ei asesu?

Sut y byddwch yn sicrhau bod amgylchedd sy'n llawn iaith arwyddo yn datblygu’n fodel i ddysgwyr wella eu sgiliau BSL? Mae hyn yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb o fewn y stafell ddosbarth yn ogystal â rhyngweithio o bell.

Sut y byddwch yn sicrhau ehangder a dyfnder ar gyfer dysgu BSL?

Sut y byddwch yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddwyr BSL wneud cynnydd yn Gymraeg, yn Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol?

Sut y byddwch yn cefnogi cynnydd yn BSL? Sut y byddwch yn cefnogi cynnydd ar draws y cwricwlwm drwy BSL?

Sut y byddwch yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio BSL mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, er enghraifft drwy gwrdd â modelau rôl byddar, ymgysylltu â chymunedau BSL lleol, a dechrau cymryd rhan yng ngweithgareddau’r Byddar?

Sut y byddwch yn sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu, cymorth a rhyngweithio BSL?

Sut y byddwch yn gweithio gyda’r Gymuned Fyddar a sefydliadau allanol i gefnogi cynllunio cwricwlwm, dysgu ac addysgu?

Sut y byddwch yn cefnogi defnyddwyr BSL ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft arwyddo cyffwrdd (arwyddo llaw dros law) neu addasu maes gweld arwyddo?

**Ystyriaethau ar gyfer diwylliant, llenyddiaeth a chreadigrwydd**
Sut bydd dysgwyr yn cael mynediad i lenyddiaeth BSL?

Sut y byddwch yn darparu amrywiaeth eang o lenyddiaeth BSL i ddysgwyr er mwyn meithrin eu mwynhad o ddeunydd gwylio pwrpasol, a'u hannog i ddarganfod llenyddiaeth yn BSL ac ieithoedd eraill?

Sut y byddwch yn cynnig cyfleoedd i brofi digwyddiadau penodol ar gyfer pobl fyddar megis digwyddiadau chwaraeon, diwylliannol a chelfyddydol?

## Cysylltiadau allweddol rhwng BSL â'r meysydd dysgu a phrofiad

Oherwydd bod BSL yn gallu gwneud yr holl bethau y gall ieithoedd eraill eu gwneud, gall dysgwyr byddar ei defnyddio ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mae gan BSL eirfa lefel-uwch sy'n berthnasol i feysydd pwnc academaidd a gellir defnyddio adnoddau megis Rhestrau Termau Cwricwlwm BSL i addysgu geirfa trawsgwricwlaidd.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
Gall barddoniaeth BSL, theatr pobl fyddar, comedi pobl fyddar a chelfyddydau gweledol y byddar gefnogi dysgu'r Celfyddydau Mynegiannol yn ogystal â dysgu BSL. Gall hefyd ddyfnhau ymwybyddiaeth o Ddiwylliant Byddar. Gall sefydliadau megis Music and the Deaf ddarparu gwybodaeth ac ysbrydoliaeth.

**Iechyd a lles**
Gall sgiliau BSL fod yn gyfle i ddysgwyr fynegi eu hunain yn effeithiol, bod yn agored i safbwyntiau pobl eraill a meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Mae BSL yn ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr byddar eiriol drostynt eu hunain a gall helpu i liniaru'r risg o ynysu, allgáu a rhwystredigaeth y gallai pobl fyddar eu hwynebu.

Gall dysgu ac addysgu o fewn Iechyd a Lles wella ymwybyddiaeth o Ddiwylliant Byddar a dealltwriaeth o faterion ynghylch hawliau pobl anabl, ieithoedd lleiafrifol a chydnabod BSL.

**Y Dyniaethau**
Gall dysgu am hanes Byddardod ac am bobl fyddar yn y gorffennol helpu i feithrin dealltwriaeth well o hunaniaeth a Diwylliant Byddar heddiw, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gall dysgwyr archwilio cysyniadau cyfiawnder, cydraddoldeb a hawliau drwy ddysgu am Ddiwylliant Byddar a BSL.

**Mathemateg a Rhifedd**
Mae canfod a chymhwyso patrymau a datrys problemau yn sgiliau sydd eu hangen i wneud cynnydd wrth ddysgu BSL yn ogystal â Mathemateg a Rhifedd. Gall dysgu rhifolion BSL ac arwyddion ar gyfer meintiau, amser ac arian, er enghraifft, helpu i ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr o fathemateg. Mae systemau cyfrif BSL yn rhai ar gyfer un llaw a gallant gynnig mewnwelediad i wahanol fonau rhifau.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Gall dysgu am glyw a byddardod ac am dechnolegau megis cymhorthion clyw a mewnblaniadau yn y cochlea helpu dysgwyr i ddeall materion sy'n ymwneud â byddardod. Mae cyfathrebu digidol yn cynnig cyfleoedd i greu cysylltiadau er mwyn atgyfnerthu dysgu BSL a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Gall sgiliau cyfathrebu ym maes dylunio hefyd ddod â'r ddau ynghyd o ran datblygu meddylfryd dylunio dysgwyr yn ogystal â chyfleu eu syniadau i eraill.